# SL(5)497 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003").

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 24K newydd yn Rheoliadau 2003. Mae'r rheoliad 24K newydd yn darparu na chaiff awdurdod lleol godi swm ar ei gyfrif refeniw i adlewyrchu unrhyw amrywiad yng ngwerth teg buddsoddiad awdurdod lleol mewn cronfa fuddsoddi gyfun. Yn hytrach, rhaid cofnodi'r symiau hynny mewn cyfrif ar wahân sydd wedi ei greu at y diben hwnnw yn unig ac a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau (yn adran iv.) yn nodi'r canlynol:

"Many local authorities have holdings in pooled investment funds….The Regulations amend the 2003 Regulations to mitigate the impact of fair value movements on pooled investment funds on local authority budget setting due to new International Financial Reporting Standards (IFRS) for Financial Instruments (IFRS9). This will place local authorities in Wales on an equivalent footing to counterparts in England."

Bydd y newid y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio arno yn berthnasol i gyfrifon a baratowyd ar gyfer blynyddoedd ariannol mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau gyda 1 Ebrill 2019 ac sy'n gorffen gyda 31 Mawrth 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y dau bwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

1. Mae'r troednodyn i reoliad 1(2) yn cynnwys nifer o gyfeiriadau statudol at reoliadau sydd wedi diwygio Rheoliadau 2003. Un o'r rheoliadau a restrir yn y troednodyn yw "2006/994", sy'n ymddangos yn wall gan nad yw'r rheoliadau hynny wedi diwygio Rheoliadau 2003. Rydym yn cymryd y dylai hyn fod wedi bod yn gyfeiriad at "2006/944" (sef Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2006, a ddiwygiodd Reoliadau 2003).

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeirnod yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r rheoliadau diwygio cywir.

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi, ar ddiwedd adran iv., y bydd y diwygiadau i Reoliadau 2003 yn dod i rym cyn 31 Mawrth 2020 (ychwanegwyd pwyslais).

Fodd bynnag, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2020 ac nid cyn hynny.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Chwefror 2020**